***Statws** Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Atodlen yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011, ATODLEN 2. (See end of Document for details)*

PROSPECTIVE

## ATODLEN 2

*(fel y'i cyflwynwyd gan adran 2)*

## GWAITH ADEILADU A ORUCHWYLIR GAN RYWUN AC EITHRIO AWDURDODAU LLEOL

### *Effaith hysbysiad cychwynnol o dan Ran 2 o Ddeddf 1984*

1 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fydd hysbysiad cychwynnol mewn grym a bydd unrhyw waith a ragnodir yn yr hysbysiad yn cynnwys gwaith adeiladu y mae'r Mesur hwn yn gymwys iddo (pa un ai'r gwaith i gyd neu ran ohono ydyw).

(2) Cyhyd â bod yr hysbysiad cychwynnol yn parhau i fod mewn grym mewn perthynas â'r gwaith hwnnw—

(a) ni fydd adran 3 yn gymwys mewn perthynas â'r gwaith hwnnw, a

(b) ni fydd y swyddogaeth o orfodi darpariaethau'r Mesur hwn a roddir i awdurdod lleol yn adran 2(1) yn cael ei harfer mewn perthynas â'r gwaith hwnnw, ac felly ni chaiff awdurdod lleol, mewn perthynas â'r gwaith hwnnw—

(i) ddwyn achos mewn perthynas ag unrhyw dramgwydd a gyflawnwyd o dan baragraff 1 Atodlen 1, neu

(ii) cymryd unrhyw gamau eraill i orfodi'r Mesur hwn nac unrhyw ofyniad a geir ynddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 2 para. 1 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 9(3)**

### *Effaith hysbysiad corff cyhoeddus o dan Ran 2 o Ddeddf 1984*

2 (1) Pan fydd hysbysiad corff cyhoeddus mewn grym a phan fydd unrhyw waith a ragnodir yn yr hysbysiad yn cynnwys gwaith adeiladu y mae'r Mesur hwn yn gymwys iddo (pa un ai'r gwaith cyfan neu ran ohono)—

(a) ni fydd adran 3 yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw waith a ragnodir yn yr hysbysiad hwnnw, a

(b) ni fydd modd arfer y swyddogaeth a roddir i awdurdod lleol gan adran 2(1) i orfodi darpariaethau'r Mesur hwn mewn perthynas â'r gwaith hwnnw ac, o ganlyniad, ni chaiff awdurdod lleol, mewn perthynas â'r gwaith hwnnw—

(i) dwyn achos mewn cysylltiad ag unrhyw dramgwydd a gyflawnwyd o dan baragraff 1 o Atodlen 1, neu

(ii) cymryd unrhyw gamau eraill i orfodi'r Mesur hwn neu unrhyw ofyniad a geir ynddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Atod. 2 para. 2 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 9(3)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Atodlen yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011, ATODLEN 2.